# Asesiad Strwythuredig 2024 – Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Blwyddyn archwilio: 2024

Dyddiad cyhoeddi: Rhagfyr 2024

Cyfeirnod y ddogfen: 4647A2024

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mewn achos o dderbyn cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Canfyddiadau allweddol 5

Argymhellion 6

Adroddiad manwl

Tryloywder, effeithiolrwydd a chydlyniant y bwrdd 8

Systemau sicrwydd corfforaethol 14

Dull corfforaethol o gynllunio 19

Dull corfforaethol o reoli adnoddau ariannol 22

Atodiadau

Atodiad 1 – dulliau archwilio 28

Atodiad 2 – y cynnydd a wnaed ar argymhellion y flwyddyn flaenorol 30

Atodiad 3 – ymateb y rheolwyr i argymhellion archwilio 34

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau gwaith asesu strwythuredig yr Archwilydd Cyffredinol yn 2024 ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys (y Bwrdd Iechyd). Mae ein gwaith asesu strwythuredig wedi'i gynllunio i helpu i gyflawni gofyniad statudol yr Archwilydd Cyffredinol o dan adran 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i fodloni ei hun bod cyrff y GIG wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau. Mae ein hadolygiad o ddull corfforaethol y Bwrdd Iechyd o osod nodau llesiant newydd yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn cael ei gynnal i helpu i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

2 Cynhaliwyd ein gwaith asesu strwythuredig 2024 ar adeg pan oedd cyrff y GIG yn parhau i ymateb i gyfres ehangach o heriau yn gysylltiedig â'r argyfwng costau byw, yr argyfwng hinsawdd, pwysau chwyddiant ar gyllid cyhoeddus, prinder gweithlu, ac ystad sy'n heneiddio. Yn ogystal, mae cyrff y GIG yn dal i ymdrin â gwaddol pandemig COVID-19. Yn fwy nag erioed, felly, mae angen i gyrff y GIG a'u Byrddau gael trefniadau llywodraethu corfforaethol cadarn a all roi sicrwydd iddyn eu hunain, y cyhoedd, a rhanddeiliaid allweddol bod y camau angenrheidiol yn cael eu cymryd i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel, diogel ac ymatebol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n ddoeth.

3 Mae ffocws allweddol y gwaith wedi bod ar drefniadau corfforaethol y Bwrdd Iechyd er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus, gyda ffocws penodol ar y canlynol:

- tryloywder, cydlyniant ac effeithiolrwydd y bwrdd;
- systemau corfforaethol o sicrwydd;
- dull corfforaethol o gynllunio; a
- dull corfforaethol o ran rheolaeth ariannol.

Nid ydym wedi adolygu trefniadau gweithredol y Bwrdd Iechyd fel rhan o'r gwaith hwn.

4 Mae ein gwaith wedi'i lywio gan ein gwaith asesu strwythuredig blaenorol, sydd wedi'i ddatblygu a'i fireinio dros nifer o flynyddoedd. Mae hefyd wedi'i lywio gan y canlynol:

- Rheolau Sefydlog enghreifftiol, Cadw a Dirprwyo Pwerau;
- Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog enghreifftiol;
- cylchlythyrau a chanllawiau iechyd perthnasol Llywodraeth Cymru;
- Canllaw Llywodraethu Da ar gyfer Byrddau GIG Cymru (Ail Argraffiad);
- canllawiau arfer da perthnasol eraill

5 Gwnaethom ein gwaith rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2024. Mae'r dulliau a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni ein gwaith wedi'u crynhoi yn **Atodiad 1**.

Cynhaliwyd ein gwaith yn unol â'r safonau archwilio a osodwyd gan y Sefydliad Rhyngwladol o Sefydliadau Archwilio Goruchaf.

6 Mae Llywodraeth Cymru wedi uwchgyfeirio'r Bwrdd Iechyd o dan fframwaith uwchgyfeirio a goruchwylio GIG Cymru. Ym mis Tachwedd 2024, rhoddwyd y Bwrdd Iechyd mewn Ymyrraeth wedi'i Dargedu (Lefel 4) ar gyfer cyllid, strategaeth a chynllunio oherwydd bod llai o hyder yn sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd a'i ddiffyg a ragwelir ar gyfer 2024-25. Cyn hyn, roedd y Bwrdd Iechyd wedi bod yn destun Monitro Uwch (Lefel 3) ers mis Gorffennaf 2023. Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fod yn destun Monitro Arferol (Lefel 1) ar gyfer pob maes arall.

7 Rydym hefyd yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf yn yr adroddiad hwn ar gynnydd y Bwrdd Iechyd wrth fynd i'r afael ag argymhellion a oedd yn weddill a nodwyd mewn adroddiadau asesu strwythuredig blaenorol yn **Atodiad 2**.

# Canfyddiadau allweddol

8 Ar y cyfan, canfuom fod **y Bwrdd a'i bwyllgorau yn gweithio'n dda ac maent yn agored ynghylch yr heriau y mae'r sefydliad yn eu hwynebu ac mae ymrwymiad i sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol. Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi gallu cyflawni cynlluniau tymor byr neu dymor canolig y gellir eu cefnogi gan Lywodraeth Cymru, ac mae angen gwaith parhaus i gryfhau rhai agweddau allweddol ar drefniadau llywodraethiant corfforaethol y Bwrdd Iechyd.**

- gwnaethom ystyried a yw Bwrdd y Bwrdd Iechyd yn cynnal ei fusnes yn briodol, yn effeithiol ac yn dryloyw**. Canfuom fod y Bwrdd yn cynnal ei fusnes yn dryloyw ac wedi ymrwymo i welliant parhaus. Mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn parhau i weithredu'n dda, ac mae craffu wedi parhau i gryfhau, ond mae angen mwy o sicrwydd i sicrhau bod cynlluniau gwaith pwyllgorau yn cael eu halinio â blaenoriaethau strategol allweddol a'r risgiau i'w cyflawniad.**
- gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull cadarn ar gyfer rheoli risgiau, perfformiad, ac ansawdd a diogelwch gwasanaethau. Canfuom fod **y Bwrdd Iechyd yn parhau i ddatblygu ei systemau o sicrwydd gyda threfniadau cadarn ar waith ar gyfer rheoli perfformiad, mae angen mwy o waith i ddatblygu'r Fframwaith Sicrwydd Bwrdd, cryfhau trefniadau rheoli risg, darparu mwy o eglurder ar ei flaenoriaethau ansawdd a diogelwch, a gwella trefniadau ar gyfer cau argymhellion archwilio.**
- gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn o gynhyrchu strategaethau a chynlluniau corfforaethol a goruchwylio eu cyflawniad. Canfuom fod **y Bwrdd Iechyd yn parhau i fwrw ymlaen â'i waith i gyflawni ei strategaeth hirdymor a'i fodel trawsnewid 'Gwella Gyda'n Gilydd' er nad yw'n gallu cynhyrchu Cynllun Tymor Canolig Integredig a gymeradwyir gan Lywodraeth Cymru. Mae angen sicrhau**

**hefyd bod y strategaeth hirdymor yn parhau i fod yn berthnasol ac yn briodol, a bod cynnydd yn cael ei wneud ar gyflymder digonol i gyflawni'r effeithiau a fwriadwyd.**

- gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn o reoli ei adnoddau ariannol. Canfuom, **er bod trefniadau cynllunio a rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd yn gyffredinol effeithiol, y mae angen cryfhau trefniadau monitro ac adrodd er mwyn sefydlu rheolaeth ar frys dros y risgiau i'w sefyllfa ariannol. Mae heriau ariannol parhaus hefyd yn golygu bod angen monitro unrhyw risgiau perfformiad ac ansawdd cysylltiedig i'r ddarpariaeth o wasanaethau.**

# Argymhellion

9 Mae **Arddangosyn 1** yn manylu ar yr argymhellion sy'n codi o'n gwaith. Mae ymateb y Bwrdd Iechyd i'n hargymhellion wedi'i grynhoi yn **Atodiad 3**. Yn ogystal, mae gwaith i'w wneud o hyd i sicrhau bod argymhellion o flynyddoedd blaenorol yn cael eu hystyried yn llawn (gweler **Atodiad 2**)

**Arddangosyn 1: argymhellion 2024**

| **Argymhellion** | |
|---|---|
| A1 | Dylai'r Bwrdd Iechyd ei gwneud yn ofynnol i staff sydd â throsolwg sylweddol o gyllideb a/neu ddylanwad sylweddol ar drefniadau comisiynu, ddarparu gwybodaeth am unrhyw fuddiannau perthnasol a chynnwys yr wybodaeth hon ar y Gofrestr Buddiannau (**paragraff 21**). |
| A2 | Dylai'r Bwrdd Iechyd nodi ei uchelgeisiau ar gyfer ansawdd a diogelwch ei wasanaethau a sut y bydd yn mynd i'w cyflawni (**paragraff 66**) |
| A3 | Dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau'r broses o dracio argymhellion drwy sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei darparu i sicrhau'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd bod y camau a gymerwyd wedi mynd i'r afael â'r argymhellion yn effeithiol (**paragraff 74**). |

**Argymhellion**

A4 Dylai'r Bwrdd Iechyd:

4.1. Sicrhau bod adolygiadau blynyddol o'i nodau llesiant yn cael eu cyfleu'n glir (**paragraff 86**);

4.2. Sicrhau adolygiad o'i strategaeth hirdymor i gadarnhau ei phriodoldeb parhaus ar ôl y pandemig, ac, yng ngoleuni'r heriau ariannol, yn cael ei chyfleu ac yn cyfrannu at gynlluniau adolygu strategaeth yn y dyfodol (**paragraff 90**).

A5 Fel rhan o'i drefniadau cynllunio craidd, dylai'r Bwrdd Iechyd nodi a monitro'n glir:

5.1. y camau y mae'n bwriadu eu cymryd i gyflawni ei nodau llesiant dros oes ei strategaeth hirdymor (**paragraff 87**);

5.2. mesurau perfformiad strategol i gyd-fynd â'i nodau llesiant sy'n dal yr effaith hirdymor y mae'n ceisio ei gyflawni (**paragraff 87**).

A6 Dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau adroddiadau sy'n nodi cynnydd o’i gymharu â strategaethau a chynlluniau corfforaethol ehangach trwy nodi'n glir lle nad yw cyflawni ar y trywydd iawn, camau lliniaru, ac amserlenni cyflawni diwygiedig (**paragraff 92**).

A7 Dylai'r Bwrdd Iechyd nodi, monitro a rheoli unrhyw risgiau ansawdd a pherfformiad uniongyrchol a allai godi oherwydd yr heriau ariannol parhaus (**paragraff 105**).

A8 Dylai'r Bwrdd Iechyd ddarparu mwy o sicrwydd o fewn adroddiadau cyllid ar effaith camau lliniaru i fynd i'r afael â risgiau ariannol allweddol (**paragraff 116**).

# Adroddiad manwl

## Tryloywder, effeithiolrwydd a chydlyniant y Bwrdd

10 Gwnaethom ystyried a yw Bwrdd y **Bwrdd Iechyd** yn cynnal ei fusnes yn briodol, yn effeithiol ac yn dryloyw.

11 Canfuom fod **y Bwrdd wedi ymrwymo i gynnal ei fusnes yn dryloyw a gwelliant parhaus. Mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn parhau i weithredu'n dda, ac mae craffu wedi parhau i gryfhau, ond mae angen mwy o sicrwydd i sicrhau bod strwythurau pwyllgorau a'u cynlluniau gwaith yn cael eu halinio â blaenoriaethau strategol allweddol a'u risgiau i'w cyflawniad**

### Tryloywder cyhoeddus busnes y Bwrdd

12 Gwnaethom ystyried a yw'r Bwrdd yn hyrwyddo ac yn dangos ymrwymiad i dryloywder cyhoeddus busnes y bwrdd a phwyllgorau. Roeddem yn chwilio yn benodol am dystiolaeth o'r canlynol:

- cyfarfodydd bwrdd a phwyllgorau sy'n hygyrch i'r cyhoedd;
- papurau'r bwrdd a phwyllgorau ar gael i'r cyhoedd cyn cyfarfodydd;
- busnes a phroses gwneud penderfyniadau y Bwrdd a phwyllgorau yn cael eu cynnal yn dryloyw.

13 Canfuom fod **y Bwrdd a'i bwyllgorau yn dangos lefelau da o dryloywder cyhoeddus wrth gynnal eu busnes. Gellid cryfhau'r trefniadau presennol ymhellach trwy hyrwyddo cyfarfodydd pwyllgor sydd i ddod yn gliriach**.

14 Mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn parhau i weithredu cyfarfodydd yn gyhoeddus gyda'r rhan fwyaf o gyfarfodydd yn cael eu cynnal yn rhithwir. Mae holl gyfarfodydd y Bwrdd yn cael eu ffrydio'n fyw ac mae mynediad at agendâu cyfarfodydd a recordiadau blaenorol ar gael trwy wefan y Bwrdd Iechyd sy'n cefnogi hygyrchedd (gweler **Atodiad 2 A1.1 2023**). Mae cyfleoedd o hyd i hyrwyddo cyfarfodydd pwyllgorau yn fwy penodol ar wefan y Bwrdd Iechyd a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol yn unol â'r broses hyrwyddo cyfarfodydd y Bwrdd. Byddai hyn yn cefnogi mwy o dryloywder busnes ac yn annog aelodau o'r cyhoedd sy'n dymuno arsylwi cyfarfodydd i wneud hynny.

15 Mae papurau agenda'r Bwrdd a phwyllgorau ar gael i'r cyhoedd cyn cyfarfodydd, mae yna achosion o hyd lle mae eitemau agenda yn cael eu hychwanegu'n hwyr (gweler **paragraff 34**). Mae cofnodion heb eu cadarnhau bellach ar gael yn fuan ar ôl cyfarfodydd sy'n hyrwyddo tryloywder busnes y Bwrdd (gweler **Atodiad 2 A1.2 2023**).

16 Mae'r rhan fwyaf o fusnesau'r Bwrdd yn cael eu cynnal mewn sesiynau agored (yn gyhoeddus). Gwneir defnydd priodol o sesiynau preifat, gyda'r rhain wedi'u cadw ar gyfer materion cyfrinachol a sensitif yn unig. Mae'r Bwrdd yn parhau i ddarparu trosolwg lefel uchel o eitemau a drafodwyd yn breifat yng nghyfarfod cyhoeddus y Bwrdd canlynol er mwyn cynnal tryloywder.

17 Canfu ein harsylwadau o gyfarfodydd Bwrdd a phwyllgorau eu bod yn cefnogi gonestrwydd a thryloywder da, yn enwedig mewn perthynas â'r heriau sy'n wynebu'r sefydliad.

## Trefniadau i gefnogi'r gwaith o gynnal busnes y Bwrdd

18 Gwnaethom ystyried a oes trefniadau priodol a thryloyw ar waith i gefnogi'r gwaith o gynnal busnes y Bwrdd a phwyllgorau yn effeithiol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth fod y canlynol yn ffurfiol, yn gyfoes ac ar gael i'r cyhoedd:

- Cadw a Dirprwyo Pwerau a Chynllun Dirprwyo ar waith, sy'n nodi cyfrifoldebau'n glir;
- Rheolau Sefydlog (RhS) a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog ar waith, ynghyd â thystiolaeth o gydymffurfiaeth;
- polisïau a gweithdrefnau ar waith i hyrwyddo a sicrhau uniondeb a phriodoldeb.

19 Canfuom fod **gan y Bwrdd Iechyd drefniadau cyffredinol da ar gyfer monitro a diweddaru ei fframweithiau rheoli craidd. Mae gwaith pellach o hyd i gryfhau ei drefniadau ar gyfer uniondeb a phriodoldeb.**

20 Cymeradwywyd y Cynllun Cadw, Dirprwyo Pwerau a Rheolau Sefydlog gan y Bwrdd ym mis Mai 2024. Mae Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog hefyd yn gyfredol ac ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Bwrdd Iechyd.

21 Adroddwyd y copi diweddaraf o'r Datganiad a'r Gofrestr Buddiannau i'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (ARAC) ar gyfer sicrwydd ym mis Hydref 2024, a'r Bwrdd ym mis Tachwedd 2024. Mae yna hefyd broses uwchgyfeirio ar waith ar gyfer Aelodau'r Bwrdd nad ydynt wedi cyflwyno ffurflenni datganiad erbyn y dyddiad gofynnol. Er na nodwyd unrhyw uwchygyfeiriadau, mae hwn yn fecanwaith defnyddiol i sicrhau tryloywder a gonestrwydd a phriodoldeb gwneud penderfyniadau o fewn y sefydliad. Er bod y Gofrestr Buddiannau wedi'i hymgorffori yn y bwndel agenda ar gyfer cyfarfod ARAC, mae'n weddol anodd o hyd cael gafael arni ar wefan y Bwrdd Iechyd (gweler **Atodiad 2 A5a 2022**). Fel y nodwyd y llynedd, dylai'r Bwrdd Iechyd ehangu'r Gofrestr Buddiannau i gynnwys aelodau staff sydd â throsolwg o'r gyllideb a/neu ddylanwad sylweddol ar drefniadau comisiynu **(Argymhelliad 1).**

22 Er bod tudalen polisïau allweddol ar wefan y Bwrdd Iechyd, mae'r cyhoedd yn dal yn ei chael yn anodd cael gafael ar y polisïau eu hunain, er eu bod ar gael ar gais (gweler **Atodiad 2 A5a 2022).** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cydnabod na fyddant yn ceisio mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn ar hyn o bryd.

## Effeithiolrwydd cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau

23 Gwnaethom ystyried a yw cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau yn cael eu cynnal yn briodol ac yn effeithiol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r canlynol:

- strwythur pwyllgor priodol, integredig yn gweithredu'n dda ar waith, sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau a risgiau strategol allweddol, sy’n adlewyrchu canllawiau perthnasol, ac yn helpu i gyflawni gofynion statudol;
- agendâu a rhaglenni gwaith y Bwrdd a phwyllgorau sy'n ymdrin â phob agwedd ar eu Cylch Gorchwyl priodol yn ogystal â chael eu llunio’n barhaus gan Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd (FfSB);
- cyfarfodydd Bwrdd a phwyllgorau wedi'u cadeirio'n dda sy'n dilyn prosesau y cytunwyd arnynt, gydag aelodau’n bodloni safonau cyfarfodydd ac yn darparu cydbwysedd da o graffu, cefnogaeth a her;
- pwyllgorau yn derbyn ac yn gweithredu ar y sicrwydd gofynnol ac yn rhoi sicrwydd amserol a phriodol i'r Bwrdd.

24 Canfuom fod **y Bwrdd a phwyllgorau yn parhau i weithredu'n dda, ac mae gwaith craffu wedi parhau i gryfhau. Mae angen mwy o waith i gryfhau Fframwaith Sicrwydd Bwrdd ymhellach i roi sicrwydd bod pwyllgorau'n cael eu halinio â blaenoriaethau strategol allweddol a'u risgiau i'w cyflawniad.**

25 Cymeradwyodd y Bwrdd Iechyd FfSB ym mis Mai 2024 ar ôl bod heb un am sawl blwyddyn (gweler **paragraffau 52 i 54**). Mae'r FfSB cymeradwy yn cynnwys fframwaith sicrwydd y Bwrdd Iechyd, ac mae'r gofrestr risgiau corfforaethol yn rhan o'r fframwaith. Mae angen mwy o waith i sicrhau bod risgiau'n cyd-fynd â chyflawni blaenoriaethau strategol a'u rheolaethau a'u sicrwydd cysylltiedig. Felly, mae'n anodd dod i'r casgliad bod y pwyllgorau presennol wedi'u llunio'n briodol gan y FfSB ac wedi'u halinio â'r blaenoriaethau strategol a'u risgiau i'w cyflawniad. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd ddatblygu FfSB mwy cynhwysfawr i gael a rhoi sicrwydd bod strwythur presennol y pwyllgor wedi'i alinio'n briodol (gweler **Atodiad 2 A3 2022).**

26 Er gwaethaf absenoldeb FfSB cynhwysfawr, ymddengys fod gan bwyllgorau gynlluniau gwaith priodol sydd gyda'i gilydd yn adlewyrchu ehangder busnes y Bwrdd a phwyllgorau. Fodd bynnag, hyd nes y bydd y risgiau i gyflawni blaenoriaethau strategol wedi'u nodi'n llawn, nid yw'r pwyllgorau yn gallu bod yn sicr bod cynlluniau gwaith yn darparu goruchwyliaeth gynhwysfawr o risgiau strategol. Adolygwyd Cylch Gorchwyl y pwyllgorau a derbyniwyd cymeradwyaeth y Bwrdd ym mis Mai 2024. Roedd y newidiadau yn cynnwys symud ychydig o feysydd busnes i bwyllgor mwy priodol a chryfhau pwrpas rhai pwyllgorau. Er enghraifft:

- mae Llywodraethu Gwybodaeth wedi'i symud o'r Pwyllgor Cyflawni a Pherfformiad i ARAC;
- mae'r Pwyllgor Cynllunio, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth (PPPHC) wedi cynyddu ei ffocws ar iechyd y boblogaeth.

27 Mae cyflwyno 'agendâu cydsynio' mewn cyfarfodydd pwyllgorau, sy'n caniatáu i adroddiadau gael eu grwpio a'u cymeradwyo fel un eitem agenda, wedi creu mwy o amser i ganolbwyntio a thrafod eitemau sylweddol. Mae angen i rai cadeiryddion pwyllgorau sicrhau ym mhob cyfarfod eu bod yn rhoi cyfle i eitemau agenda

cydsynio gael eu symud i'r brif agenda i'w trafod os yw’r rhai sy’n bresennol yn teimlo bod hyn yn angenrheidiol.

28 Dylai'r newidiadau hyn helpu i wneud rheoli llwyth gwaith y Pwyllgor Cyflawni a Pherfformiad yn haws gan fod yr amser sydd ar gael i reoli'r agendâu eang ar gyfer y pwyllgor hwn wedi bod yn heriol. Mae'r newidiadau hefyd yn golygu bod eitemau sydd wedi'u cynnwys yng nghynlluniau gwaith pwyllgor yn cyd-fynd yn well â'u cylch gorchwyl.

29 Er gwaethaf y gwaith i ystyried cynlluniau gwaith pwyllgorau, nododd Adolygiad Dilynol Gofal Sylfaenol ym mis Gorffennaf 2024 gyfleoedd i gynyddu gwelededd ac ystyriaeth gofal sylfaenol ar lefel Bwrdd a phwyllgor. Yn ystod 2024, uwchgyfeiriodd y Bwrdd Iechyd statws gwasanaethau iechyd meddwl yn unol â'i fframwaith uwchgyfeirio mewnol. Mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Profiad, Ansawdd a Diogelwch Cleifion (PEQS) yn monitro cynnydd yn rheolaidd o’i gymharu â chynlluniau gwella.

30 Mae'r Cadeirydd a'r Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol yn parhau i annog a chefnogi cadeiryddion pwyllgorau i gael mwy o berchnogaeth o'u cynlluniau gwaith pwyllgorau priodol a sicrhau craffu a herio priodol. Mae penodi aelod annibynnol dros gyllid wedi gwella ansawdd craffu ar faterion ariannol. Mae cyfleoedd wedi'u llunio o fewn agendâu i adlewyrchu sut hwyl gafodd y cyfarfodydd ac i ddarparu adborth. Mae cyfarfodydd yn cael eu cadeirio'n dda, ac mae safonau cyfarfodydd yn cael eu bodloni ynghyd â her a chefnogaeth gwrtais ond priodol.

31 Mae Adroddiadau Cadeirydd Pwyllgor[1] yn parhau i gael eu darparu i'r Bwrdd er mwyn sicrhau llif priodol o sicrwydd. Mae rhai Adroddiadau Cadeirydd yn cynnwys adran i uwchgyfeirio meysydd sy’n peri pryder, ac mae templed safonol wedi'i gyflwyno i sicrhau cysondeb. Ers ein hasesiad strwythuredig diwethaf, mae'r Fforwm Cadeiryddion Pwyllgorau wedi dechrau ymwreiddio ac mae’n helpu i gydlynu busnes pwyllgorau, lleihau dyblygu gwaith ar draws pwyllgorau, a gwella ansawdd adroddiadau cadeiryddion pwyllgorau. Mae'r Pwyllgorau'n darparu diweddariadau rheolaidd i'r Bwrdd drwy Adroddiad Cadeiryddion i'r Bwrdd, gan ddarparu trosolwg defnyddiol o drafodaethau fforwm a chamau gweithredu cysylltiedig (gweler **Atodiad 2 A6a 2022**). Mae cyfle i fod yn gliriach wrth gyfeirio busnes o un pwyllgor i'r llall, hynny yw beth a ddisgwylir y bydd yn digwydd gyda'r atgyfeiriad ac a oes angen diweddaru canlyniad yr atgyfeiriad yn y dyfodol.

## Ansawdd ac amseroldeb papurau Bwrdd a phwyllgorau

32 Fe wnaethom ystyried a yw'r Bwrdd a phwyllgorau yn derbyn gwybodaeth amserol, o ansawdd uchel sy'n cefnogi craffu, sicrwydd a gwneud penderfyniadau effeithiol. Roeddem yn chwilio’n benodol am dystiolaeth o bapurau Bwrdd a phwyllgorau clir

[1] Mae Adroddiadau Cadeiryddion Pwyllgorau yn rhoi crynodeb i'r Bwrdd o faterion allweddol a ystyriwyd a'r penderfyniadau cysylltiedig a wnaed gan bob pwyllgor ers cyfarfod blaenorol y Bwrdd.

ac amserol sy'n cynnwys y lefel angenrheidiol/priodol o wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer gwneud penderfyniadau, craffu a sicrwydd effeithiol.

33 Gwelsom, **er bod papurau'r Bwrdd a phwyllgorau'n gyffredinol o safon dda, mae cyfleoedd i sicrhau gwelliannau pellach.**

34 Mae gwybodaeth y bwrdd a'r pwyllgor yn gyffredinol yn parhau i fod o safon dda ac yn destun myfyrio cyson. Er bod nifer fach o eitemau agenda yn cael eu cyhoeddi yn hwyrach na'r amserlen saith diwrnod, mae hyn yn bennaf oherwydd bod angen i'r wybodaeth agenda benodol fod mor amserol â phosibl. Gall hyn gyfyngu ar faint o amser y mae y rhai sy'n bresennol ac arsylwyr yn ei gael i ddarllen ac ystyried papurau cyn cyfarfodydd. Gallai'r Bwrdd Iechyd ystyried a fyddai addasu amseriad cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau yn darparu digon o amser i alluogi'r papurau hyn i gael eu cynhyrchu cyn dyddiad cau y papur. Mae papurau cyllid yn parhau i gael eu derbyn yn dda ac yn cael eu hystyried yn glir ac yn esboniadol.

35 Mae aelodau annibynnol yn parhau i ddarparu her barhaus i gefnogi gwelliant parhaus ansawdd adroddiadau. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gwybodaeth allweddol yn cael ei chyflwyno cyn unrhyw naratif manwl i ganolbwyntio sylw a bod yn glir am yr hyn y gofynnir i'r pwyllgor ei wneud mewn perthynas ag eitemau agenda. Clywsom sut y gall gormod o iaith dechnegol a defnydd o acronymau fod yn rhwystr i ddealltwriaeth y cyhoedd o bapurau pwyllgor. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd fod yn ymwybodol o hyd agendâu a phapurau, yn enwedig ar gyfer y Pwyllgor Cyflawni a Pherfformiad y gall bwndeli agenda fod yn fwy na thri chant o dudalennau yn rheolaidd. Gall hyn rwystro dyfnder craffu a'r adolygiad a gynhelir cyn cyfarfodydd.

36 Mae yna hefyd gyfle i fod yn fwy eglur o fewn papurau pwyllgor ynghylch sut mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy[2] yn cael ei hystyried a sut mae staff yn cyflwyno hyn mewn ffordd ystyrlon i ategu'r broses o wneud penderfyniadau.

## Ymrwymiad y Bwrdd i glywed oddi wrth gleifion/defnyddwyr gwasanaethau a staff

37 Gwnaethom ystyried a yw'r Bwrdd yn hyrwyddo ac yn dangos ymrwymiad i glywed oddi wrth gleifion/defnyddwyr gwasanaethau a staff. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r Bwrdd yn defnyddio ystod o ddulliau addas i glywed oddi wrth amrywiaeth o gleifion/defnyddwyr gwasanaethau, y cyhoedd a staff.

38 Canfuom fod **y Bwrdd yn parhau i glywed oddi wrth gleifion a staff, ac mae lle i rannu'r hyn a ddysgwyd drwy droeon y Bwrdd o hyd**.

39 Mae'r Bwrdd wedi ehangu ei ddefnydd o straeon cleifion trwy eu cynnwys ar agenda y Pwyllgor Profiad y Claf, Ansawdd a Diogelwch (PEQS). Mae straeon cleifion yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd a'r Pwyllgor PEQS gan ddefnyddwyr

[2] Mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn golygu bod yn rhaid i'r corff weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

gwasanaethau sy'n mynychu'n bersonol a thrwy fideos. Mae straeon bellach yn cynrychioli sbectrwm eang o brofiadau cadarnhaol a negyddol (gweler **Atodiad 2 A2 2023**). Er bod hyn yn adeiladol, rydym wedi clywed bod pwrpas cynnwys straeon cleifion yn dal i fod yn aneglur, ac ar adeg ein hadolygiad, roedd papur yn cael ei ystyried i helpu aelodau'r Bwrdd i fanteisio i'r eithaf ar effaith straeon. Mae ymatebion arolwg o system profiad cleifion GIG Cymru (Civica) yn cael eu cyflwyno'n rheolaidd i Bwyllgor PEQS.

40 Mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Gweithlu a Diwylliant yn parhau i dderbyn straeon staff. Mae'r Pwyllgor Gweithlu a Diwylliant hefyd wedi derbyn diweddariadau arferol ar flaenoriaeth strategol 'Lle Gwych i Weithio' y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys cadw staff, 'Codi llais heb ofn', a'r Rhaglen Drochi Arweinyddiaeth Glinigol. Adroddwyd canlyniadau Arolwg Staff y GIG 2023 hefyd i'r Pwyllgor Gweithlu a Diwylliant ym mis Mehefin 2024. Er gwaethaf gwell ymateb na'r hyn a gafodd byrddau iechyd eraill, roedd cyfradd ymateb y Bwrdd Iechyd yn isel ar 28%.

41 Mae troeon aelodau'r bwrdd yn parhau i ddigwydd ac yn rhoi cyfle i aelodau annibynnol driongli'r hyn y maent yn ei glywed yn uniongyrchol gan staff gyda'r wybodaeth a dderbyniwyd yng nghyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau. Mae'r troeon wedi'u cynllunio dri i chwe mis ymlaen llaw, ond mae cyfle i integreiddio rolau Aelodau Annibynnol a Chyfarwyddwyr Gweithredol yn y troeon (gweler **Atodiad A3 3.1 2023**). Ar adeg ein hadolygiad, fodd bynnag, roedd ymweliad aelod o'r Bwrdd wedi'i drefnu ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl, oherwydd yr heriau yn y maes gwasanaeth hwn (gweler **paragraff 29**). Rydym wedi argymell yn flaenorol y dylai'r Bwrdd Iechyd nodi sut mae'r troeon yn gweithredu a'r mecanweithiau ar gyfer adrodd themâu allweddol a nodi'r hyn a ddysgwyd. Nid yw hyn wedi'i weithredu eto (gweler **Atodiad A3.2 2023**).

## Cydlyniant y Bwrdd ac ymrwymiad i welliant parhaus

42 Gwnaethom ystyried a yw'r Bwrdd yn sefydlog ac yn gydlynol ac yn dangos ymrwymiad i welliant parhaus. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r canlynol:

- Bwrdd sefydlog a chydlynol gyda chnewyllyn o uwch arweinwyr sydd â'r gallu, y sgiliau a'r profiad priodol;
- y Bwrdd a'i bwyllgorau yn adolygu eu heffeithiolrwydd yn rheolaidd ac yn defnyddio'r canfyddiadau i lywio a chefnogi gwelliant parhaus;
- rhaglen berthnasol o ddatblygu, cefnogaeth a hyfforddiant Bwrdd ar waith.

43 Canfuom fod **gan y Bwrdd aelodaeth sefydlog erbyn hyn, yn dilyn rhai newidiadau sylweddol ac mae wedi ymrwymo i welliant parhaus**.

44 Mae'r Bwrdd wedi bod trwy rai newidiadau sylweddol yn ystod y 12 mis diwethaf, ond mae'r rhain wedi cael eu rheoli'n dda. Mae dau aelod annibynnol newydd wedi'u penodi yn 2024, gyda phenodiad pellach i'w wneud yn gynnar yn 2025. Mae Cadeirydd y Pwyllgor Cyflawni a Pherfformiad wedi cadeirio'r Pwyllgor Archwilio a

Sicrwydd Risg (ARAC) dros dro nes i'r aelod annibynnol newydd dros gyllid ymgymryd â'r rôl ym mis Ionawr 2025, ar ôl cyfnod trosglwyddo.

45 Yn ogystal, yn dilyn penodi'r Prif Weithredwr parhaol ym mis Chwefror 2024, mae penodiadau parhaol hefyd wedi'u gwneud i'r ddwy swydd cyfarwyddwr gweithredol a lenwyd yn flaenorol ar sail interim (gweler **Atodiad 2 A10 2022**). Mae newidiadau wedi'u gwneud ar draws portffolios gweithredol i alinio rolau a chyfrifoldebau yn fwy priodol ag uchelgeisiau'r Bwrdd Iechyd. Mae hyn wedi arwain at newidiadau sylweddol i rôl y Cyfarwyddwr Gweithrediadau sydd bellach hefyd yn gyfrifol am ofal sylfaenol, ochr yn ochr ag iechyd cymunedol ac iechyd meddwl. Bydd angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod y rôl hon yn cael ei chefnogi'n briodol o ystyried yr heriau yn y meysydd gwasanaeth hyn.

46 Yn ystod 2024, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno adolygiadau effeithiolrwydd pwyllgorau ar gyfer pob un o'i bwyllgorau. Ymgymerwyd â'r rhain yn gynnar yn y flwyddyn a rhannwyd y canlyniadau gyda'r Bwrdd a phob pwyllgor gyda chamau gweithredu ac amserlenni wedi'u hatodi ar gyfer eu cwblhau (gweler **Atodiad 2 A4 2023** ac **A9a 2022**). Fel y trafodwyd ym **mharagraff 30**, ar ddiwedd pob cyfarfod pwyllgor mae'r Cadeirydd yn gofyn am adborth ar sut aeth y cyfarfod (gweler **Atodiad 2 A9b 2022**). Cyflwynwyd Adroddiadau Blynyddol ar gyfer pob pwyllgor i'r Bwrdd ym mis Mai 2024 a oedd yn cynnwys sylwadau ar effeithiolrwydd pwyllgorau a'r newidiadau a wnaed o ganlyniad.

47 Mae rhaglen briodol o ddatblygu bwrdd yn parhau, gyda sesiynau yn cael eu cynnal bob mis sy'n canolbwyntio ar bedair thema, datblygu'r tîm (Bwrdd), datblygu'r sefydliad, ymgysylltu â phartneriaid allanol, ac ymgysylltu â'r sefydliad.

# Systemau sicrwydd corfforaethol

48 Fe wnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn o reoli risgiau, perfformiad, ac ansawdd a diogelwch gwasanaethau.

49 Canfuom fod **y Bwrdd Iechyd yn parhau i ddatblygu ei systemau sicrwydd. Mae trefniadau cadarn ar gyfer rheoli perfformiad, ond mae angen mwy o waith i ddatblygu'r Fframwaith Sicrwydd Bwrdd, cryfhau trefniadau rheoli risg strategol a gweithredol, darparu mwy o eglurder ar ei flaenoriaethau ansawdd a diogelwch, a gwella trefniadau ar gyfer cau argymhellion**.

## Dull corfforaethol o oruchwylio risgiau strategol a chorfforaethol

50 Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn o nodi, goruchwylio a chraffu ar risgiau strategol i gyflawni blaenoriaethau/amcanion strategol a risgiau corfforaethol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r canlynol:

- Fframwaith Sicrwydd Bwrdd (FfSB) cyfredol ac sydd ar gael i'r cyhoedd ar waith, sy'n dwyn ynghyd yr holl wybodaeth berthnasol ar y risgiau i gyflawni blaenoriaethau/amcanion strategol y sefydliad;
- y Bwrdd yn perchnogi, adolygu, diweddaru a defnyddio'r FfSB yn weithredol i oruchwylio, craffu a mynd i'r afael â risgiau strategol.
- fframwaith rheoli risg priodol a chyfredol ar waith, sy'n seiliedig ar bolisïau, gweithdrefnau, a rolau a chyfrifoldebau clir;
- y Bwrdd yn darparu trosolwg a chraffu effeithiol ar effeithiolrwydd y system rheoli risg a risgiau corfforaethol.

51 Canfuom fod **y Bwrdd Iechyd wedi datblygu cam cyntaf ei Fframwaith Sicrwydd Bwrdd, ond mae angen mwy o waith i nodi'r holl ffynonellau sicrwydd ar effeithiolrwydd ei drefniadau i reoli risgiau strategol a chyflawni ei amcanion sefydliadol. Mae angen cryfhau'r cofrestrau risgiau corfforaethol a'r trefniadau i uwchgyfeirio'r risgiau sgorio gweithredol uchaf.**

52 Fe wnaethom adrodd yn 2021 ac eto yn 2022 nad oedd y FfSB wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu'r blaenoriaethau a nodir yn strategaeth hirdymor y Bwrdd Iechyd a'r Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) ac nad oedd wedi'i gyflwyno i'r Bwrdd ers mis Ionawr 2020. Cymeradwywyd FfSB gan y Bwrdd ym mis Mai 2024, ac mae'n nodi fframwaith trosfwaol mecanweithiau sicrwydd y Bwrdd Iechyd.

53 Er ein bod yn cydnabod bod rhannau cydrannol o'r FfSB, megis y Fframwaith Rheoli Risg ar waith, mae cyfleoedd i wneud yn gliriach yr effaith y mae pob un o risgiau strategol y Bwrdd Iechyd yn ei chael o'i chymharu â'r gwaith o gyflawni ei flaenoriaethau strategol a'r rheolaethau a'r ffynonellau sicrwydd. Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn nodi risgiau strategol ar wahân i risgiau corfforaethol. O ganlyniad, mae un gofrestr yn cynnwys y risgiau cymhleth, lefel uchel i gyflawni'r strategaeth a'r risgiau gweithredol sgôr uchaf. Fel rhan o'r gwaith sydd ei angen i ddatblygu'r FfSB ymhellach, dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu cofrestrau risgiau ar gyfer risgiau strategol a risgiau corfforaethol er mwyn sicrhau bod goruchwyliaeth yn briodol. Yn gonfensiynol, byddem yn disgwyl i'r Bwrdd fod yn berchen ar y FfSB (sy'n cynnwys y risgiau strategol), a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol (CRC) i fod yn eiddo i'r tîm gweithredol. Dylai'r Bwrdd Iechyd symud ymlaen â'r gwaith sy'n ofynnol ar y FfSB yn gyflym a chyflwyno hwn i'r Bwrdd i'w ystyried cyn gynted â phosibl (gweler **Atodiad 2 A3 2022).**

54 Cafodd Fframwaith Rheoli Risg y Bwrdd Iechyd ei ddiweddaru a'i gymeradwyo ddiwethaf gan y Bwrdd ym mis Tachwedd 2022 a'i adolygu gan ARAC ym mis Tachwedd 2023. Cyflwynwyd diweddariad rheoli risg i ARAC ym mis Mai 2024 ac roedd fframwaith wedi'i ddiweddaru i fod i gael ei gyflwyno i ARAC ym mis Hydref 2024, fodd bynnag, mae hyn wedi'i ohirio tan Ionawr 2025 oherwydd cyfyngiadau adnoddau. Mae hyn yn creu cyfle i alinio datblygiad pellach y FfSB â'r diweddariad i'r Fframwaith Rheoli Risg. Yn fwy cadarnhaol, cymeradwywyd parodrwydd y Bwrdd Iechyd i dderbyn risg gan y Bwrdd ym mis Mai 2024 ac mae ar gael ar wefan y Bwrdd Iechyd.

55 Diweddarwyd templed y CRC yn 2024, drwy gyflwyno graddfeydd sicrwydd mewn fformat statws RAG[3]. Mae'r CRC yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd bob deufis, ac mae gan bwyllgorau risgiau corfforaethol penodol wedi'u dyrannu iddynt ar gyfer sicrwydd ac i gael eu hadolygu. Mae hyn wedi'i fapio'n ddefnyddiol ym mhapur clawr y CRC ac mae'r dyraniadau yn briodol i gylch gwaith y pwyllgor. Mae adroddiadau CRC pwyllgorau yn fanwl ac yn darparu gwybodaeth i gefnogi craffu, ond mae mân anghysondebau yn eu cyflawnrwydd. Er enghraifft, mae rhai adroddiadau yn cynnwys effeithiau camau gweithredu ar y sgôr risg gyfredol, a rhai ddim.

56 Mae'r Grŵp Risg a Sicrwydd wedi bod yn cyfarfod yn rheolaidd ac mae'r CRC bellach yn mynd i'r grŵp er mwyn cael ei hadolygu a'i hystyried cyn iddi gael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith i'w goruchwylio. Ym mis Mehefin 2024, adroddodd Archwilio Mewnol ganfyddiadau eu hadolygiad o reoli risg gweithredol a sicrwydd mewn tri maes o'r Bwrdd Iechyd; Llywodraethiant Corfforaethol, yr Adran Menywod a Phlant a Rheoli Meddyginiaethau. Derbyniodd yr adolygiad sgôr sicrwydd rhesymol yn gyffredinol ond nododd nad oedd y Grŵp Risg a Sicrwydd wedi adolygu cofrestrau risg Adran Menywod a Phlant na Rheoli Meddyginiaethau i'w cynnwys ar y CRC. Er ei bod yn gadarnhaol bod y Grŵp Risg a Sicrwydd ar waith, mae gwaith i'w wneud o hyd i sicrhau bod y trefniadau corfforaethol i adolygu ac uwchgyfeirio risgiau adrannol ar y CRC yn effeithiol (gweler **Atodiad 2 A4 2022).**

57 Mae cofrestrau risg y Bwrdd yn parhau i fod yn daenlenni Excel. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod oedi oherwydd cael gafael ar adnoddau i fudo risgiau i'r modiwl meddalwedd Datix wedi'i ddiweddaru[4] ac mae angen i hyn ddigwydd yn gyflym (gweler **Atodiad 2 A5 2023**). Byddai hyn yn caniatáu i'r Bwrdd Iechyd gynnal yr holl risgiau yn ganolog, gwella goruchwyliaeth gorfforaethol, a chefnogi mwy o gysondeb yng nghyflawnrwydd cofrestrau risgiau ac uwchgyfeirio i'r CRC.

## Dull corfforaethol o oruchwylio perfformiad sefydliadol

58 Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn o nodi, goruchwylio a chraffu ar berfformiad sefydliadol. Roeddem yn chwilio’n benodol am dystiolaeth o’r canlynol:

- fframwaith rheoli perfformiad priodol, cynhwysfawr a chyfoes ar waith, wedi'i danategu gan rolau a chyfrifoldebau clir;
- y Bwrdd a'r pwyllgorau yn darparu trosolwg a chraffu effeithiol ar berfformiad sefydliadol.

59 Canfuom fod **diwygiadau i fframwaith rheoli perfformiad y Bwrdd Iechyd wedi helpu i gryfhau trosolwg o berfformiad sefydliadol**.

[3] Coch, Melyn a Gwyrdd.

[4] Mae DATIX yn system a ddefnyddir gan holl staff y GIG i adrodd am ddigwyddiadau a risgiau.

60 Cafodd Fframwaith Perfformiad Integredig y Bwrdd Iechyd ei adolygu a'i ddiweddaru ac fe'i gelwir bellach yn Fframwaith Ansawdd a Pherfformiad Integredig (IQPF). Derbyniodd gymeradwyaeth gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2024. Roedd hyn mewn ymateb i'r gofyniad i ymgorffori'r Ddyletswydd Ansawdd[5] a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2023 ac sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd Iechyd fyfyrio ar ansawdd y gwasanaethau y mae'n eu darparu a'u datblygu. Mae'r fframwaith tair blynedd hwn yn caniatáu adolygiad blynyddol.

61 Mae'r IQPF yn gynhwysfawr ac yn nodi rolau a chyfrifoldebau clir ar gyfer rheoli perfformiad. Mae hefyd yn nodi'r trefniadau trosolwg ac atebolrwydd ac amlder a'r sylw a roir i berfformiad mewn cyfarfodydd penodol.

62 Mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Cyflawni a Pherfformiad yn derbyn yr Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad Integredig (IQPR) ym mhob cyfarfod. Mae'r IQPR yn darparu trosolwg defnyddiol o berfformiad o'i gymharu â thargedau lleol a chenedlaethol, gan gynnwys data tueddiadau a meincnodi. Mae mesurau blaenoriaeth gweinidogol hefyd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad gyda chydymffurfiaeth o'i chymharu â thaflwybr mewnol y Bwrdd Iechyd a fframwaith perfformiad y GIG wedi'i nodi'n glir. Mae'r IQPR hefyd yn cynnwys mesurau a gwybodaeth am berfformiad gwasanaethau a gomisiynwyd, sy'n faes y mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i geisio dylanwadu arno a'i wella.

63 Mae adroddiad clawr yr IQPR yn cynnwys adran 'trwy eithriad' i roi ffocws ar gyflawniadau a heriau allweddol. Mae hon yn ddogfen ddefnyddiol a hygyrch sy'n cael derbyniad da gan aelodau. Dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried mireinio'r adroddiad clawr ymhellach trwy wahanu cyflawniadau a heriau, yn hytrach na'u grwpio mewn un naratif.

## Dull corfforaethol o oruchwylio ansawdd a diogelwch gwasanaethau

64 Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn o oruchwylio a chraffu ar ansawdd a diogelwch gwasanaethau. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r canlynol:

- y Bwrdd yn darparu goruchwyliaeth a chraffu effeithiol ar effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu ansawdd;
- strwythurau sefydliadol clir a llinellau atebolrwydd ar waith ar gyfer llywodraethu clinigol/ansawdd;
- y Bwrdd a'r pwyllgor perthnasol yn darparu trosolwg a chraffu effeithiol ar ansawdd a diogelwch gwasanaethau.

65 Canfuom fod **gan y Bwrdd Iechyd drefniadau effeithiol ar gyfer cynnal trosolwg o ansawdd a diogelwch ac mae wedi parhau i ymgorffori trefniadau**

[5] Cyflwynwyd y Ddyletswydd Ansawdd o dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 ac mae'n berthnasol i gyrff y GIG yng Nghymru.

**i oruchwylio'r Dyletswyddau Ansawdd a Gonestrwydd. Mae uchelgeisiau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer ansawdd a diogelwch yn aneglur**.

66 Disodlodd IQPF y Bwrdd Iechyd (gweler **paragraff 60**) ei Fframwaith Ansawdd Clinigol 2020-23 (gweler **Atodiad 2 A6 2023**). Er bod hwn yn nodi'r mesurau i'w defnyddio i fonitro ansawdd a diogelwch, nid yw'n nodi uchelgeisiau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer ansawdd a diogelwch ei wasanaethau a sut y bydd yn mynd i'w cyflawni (**Argymhelliad 2**).

67 Mae Adroddiadau Ansawdd Integredig Chwarterol i'r Pwyllgor PEQS yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr agenda ansawdd a diogelwch ar draws y Bwrdd Iechyd. Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am 'Gweithio i Wella' a chwynion, gwybodaeth am gydymffurfio â'r Ddyletswydd Gonestrwydd (gan gynnwys nifer yr achosion bob chwarter a data tueddiadau) a data profiad cleifion. Mae'r adroddiad yn rhoi sicrwydd i'r pwyllgor bod ansawdd a diogelwch yn cael ei fonitro'n briodol gyda chamau gweithredu ar waith i wella ansawdd yn barhaus. Fodd bynnag, nid yw pob maes ar gyfer gwella a gynhwysir yn yr adroddiad yn nodi camau ategol a lle mae camau gweithredu yn bodoli, dylai'r rhain fod yn CAMPUS[6].

68 Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i gael trefniadau priodol i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Dyletswyddau Ansawdd a Gonestrwydd. Mae tudalen we Dyletswydd Ansawdd y Bwrdd Iechyd yn darparu'r Safonau Iechyd a Gofal a dolenni i wefannau perthnasol megis Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

69 Cyflwynwyd Adroddiad Dyletswydd Ansawdd y Bwrdd Iechyd 2023-24 i'r Pwyllgor Profiad, Ansawdd a Diogelwch Cleifion (PEQS) ym mis Medi 2024. Mae'r adroddiad yn cydnabod ei fod yn llai manwl fel iteriad cyntaf ers i'r gofyniad i gynhyrchu adroddiadau ansawdd blynyddol ddod i fodolaeth, ond roedd hyn yn unol â disgwyliadau Llywodraeth Cymru a bydd y fformat a'r cynnwys yn parhau i ddatblygu yn y blynyddoedd dilynol.

## Dull corfforaethol o dracio argymhellion

70 Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn o oruchwylio a chraffu ar systemau ar gyfer tracio cynnydd i fynd i'r afael ag argymhellion archwilio ac adolygu. Roeddem yn chwilio yn benodol am dystiolaeth o systemau priodol ac effeithiol ar waith ar gyfer tracio ymatebion i argymhellion archwilio ac argymhellion adolygiadau eraill mewn modd amserol.

71 Canfuom fod **gan y Bwrdd Iechyd drefniadau effeithiol ar y cyfan i fonitro a thracio argymhellion, ond mae angen goruchwylio a chraffu mwy cadarn i**

[6] Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol

**sicrhau bod y camau a gymerir yn mynd i'r afael ag argymhellion yn ddigonol cyn iddynt gael eu cau.**

72 Ers ein hasesiad strwythuredig blaenorol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i ddatblygu ei drefniadau ar gyfer tracio argymhellion mewnol ac allanol, ac mae adroddiad bellach yn cael ei gyflwyno i ARAC ddwywaith y flwyddyn (gweler **Atodiad 2 A7 2023**).

73 Mae'r traciwr argymhellion yn ddefnyddiol iawn yn cynnwys papur clawr sy'n darparu diweddariad cryno o argymhellion archwilio mewnol ac allanol naill ai wedi'u cwblhau ers y diweddariad diwethaf, heb fod angen eu gweithredu neu'n hwyr. Mae dadansoddiad o'r cynnydd a wnaed hyd yma wedi'i gynnwys ar gyfer pob argymhelliad. Mae nifer yr argymhellion hwyr wedi gostwng dros y 12 mis diwethaf.

74 Dylai'r Bwrdd Iechyd, fodd bynnag, gryfhau ei ddull o gau argymhellion. Mae gwybodaeth gyfyngedig yn y traciwr argymhellion sy'n rhoi sicrwydd bod y camau a gymerwyd y fynd i'r afael ag argymhellion yn ddigonol, gan ganiatáu iddynt gael eu cau (**Argymhelliad 3**). Er enghraifft, nododd y traciwr argymhellion a gyflwynwyd i ARAC ym mis Tachwedd 2024 mai dim ond dau argymhelliad o adroddiadau asesu strwythuredig blaenorol a oedd yn parhau i fod ar agor, tra bod ein gwaith maes yn nodi bod angen gwaith pellach ar chwe argymhelliad cyn y gellir eu hystyried yn gyflawn (gweler **Atodiad 2**).

# Dull corfforaethol o gynllunio

75 Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn o gynhyrchu strategaethau a chynlluniau corfforaethol a goruchwylio eu cyflawniad.

76 Canfuom fod **y Bwrdd Iechyd yn parhau i fwrw ymlaen â'i waith i gyflawni ei strategaeth hirdymor a'i fodel trawsnewid 'Gwella Gyda'n Gilydd' er nad yw'n gallu cynhyrchu Cynllun Tymor Canolig Integredig a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru. Mae angen sicrhau hefyd bod y strategaeth hirdymor yn parhau i fod yn berthnasol ac yn briodol, a bod cynnydd yn cael ei wneud ar gyflymder digonol i gyflawni'r effeithiau a fwriadwyd.**

## Dull corfforaethol o gynhyrchu strategaethau a chynlluniau

77 Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn o gynhyrchu, goruchwylio a chraffu ar ddatblygiad strategaethau a chynlluniau corfforaethol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r canlynol:

- gweledigaeth glir a gymeradwywyd gan y Bwrdd, amcanion priodol a strategaeth hirdymor ar waith sy'n canolbwyntio ar y dyfodol, wedi'u gwreiddio mewn iechyd poblogaeth, ac wedi'u llywio gan ddadansoddiad manwl a chynhwysfawr o anghenion, cyfleoedd, heriau a risgiau;
- y strategaeth hirdymor wedi'i thanategu gan strategaeth glinigol hirdymor briodol a gymeradwywyd gan y Bwrdd;

- trefniadau corfforaethol priodol ac effeithiol ar waith ar gyfer datblygu a chynhyrchu'r Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI), a chynlluniau corfforaethol eraill;
- y Bwrdd yn craffu ar y CTCI a chynlluniau corfforaethol eraill yn briodol cyn eu cymeradwyo.

78 Canfuom fod **y Bwrdd Iechyd yn parhau i weithio tuag at gyflawni ei strategaeth hirdymor a'i fod yn bwrw ymlaen â'i waith ar ei fodel trawsnewid 'Gwella Gyda'n Gilydd' ond yn parhau i fethu â chynhyrchu Cynllun Tymor Canolig Integredig a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru**.

79 Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i weithio tuag at gyflawni ei strategaeth hirdymor 'Powys Iach, Gofalgar 2017-27'. Nod y strategaeth yw lleihau anghydraddoldebau a chanolbwyntio ar bobl sydd â'r angen mwyaf, gwella iechyd a llesiant a dod yn arweinydd ym maes iechyd a gofal gwledig integredig. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi mabwysiadu dull cwrs oes i gyflawni ei weledigaeth i sicrhau bod ei boblogaeth yn 'dechrau'n dda,' yn 'byw'n dda' ac yn 'heneiddio'n dda,' gyda ffocws ar lesiant, cymorth cynnar, a chefnogaeth, mynd i'r afael â chlefydau cronig, a gofal cyfunol.

80 Mae heriau ariannol y Bwrdd Iechyd dros y ddwy flynedd ddiwethaf (gweler **paragraffau 97 i 100)** wedi golygu nad yw wedi gallu cynhyrchu CTCI y gall Llywodraeth Cymru ei gymeradwyo. O ganlyniad, roedd Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd Iechyd ddatblygu cynllun blynyddol yn lle hynny. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflawni hyn trwy ddatblygu Cynllun Integredig pum mlynedd 2024-29, sy'n seiliedig ar gyflawni'r strategaeth a'r amcanion hirdymor gyda'r flwyddyn gyntaf yn nodi'r cynllun blynyddol manwl angenrheidiol.

81 Dechreuodd y Bwrdd Iechyd ddatblygu ei Gynllun Integredig 2024-29 ym mis Hydref 2023. Fe'i llywiwyd gan ymgysylltiad helaeth â staff, cymunedau a rhanddeiliaid. Cyfarfu'r Bwrdd yn aml gan ddefnyddio sesiynau Datblygu'r Bwrdd a chyfarfodydd y Bwrdd i gytuno ar y blaenoriaethau strategol a darparu gwaith craffu ar ddatblygiad y cynllun. Cymeradwywyd Cynllun Integredig 2024-29 gan y Bwrdd a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2024. Rhoddodd adolygiad Archwilio Mewnol o'r broses i ddatblygu'r Cynllun Integredig 2024-29 ym mis Medi 2024 sgôr sicrwydd rhesymol. Ar adeg ysgrifennu hwn, nid oedd y Cynllun Integredig wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru oherwydd sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd a'r diffyg a ragwelir ar gyfer 2024-25.

82 Mae'r Cynllun Integredig 2024-29 yn cydnabod heriau'r Bwrdd Iechyd yn glir ac yn nodi'r cynnydd y mae'n ei wneud i ddatblygu model ariannol cynaliadwy ar gyfer iechyd a gofal – y model trawsnewid 'Gwella Gyda'n Gilydd'[7]. Mae'r Bwrdd Iechyd

[7] 'Gwella Gyda'n Gilydd – llunio dull gweithredu cynaliadwy i Bowys' yw model trawsnewid y Bwrdd Iechyd. Bydd y model yn cael ei lywio gan egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015) a gofal iechyd sy'n seiliedig ar werthoedd, gyda'r nod o drawsnewid y gwasanaethau y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu darparu, gwella canlyniadau a phrofiad, a bod yn gynaliadwy yn ariannol. Nod gofal iechyd sy'n seiliedig ar werthoedd yw cyflawni canlyniadau gwell i gleifion am gost is.

wedi datblygu dull tri cham, darganfod, dylunio a chyflawni, i ddatblygu'r model, ac wedi nodi ei fod bellach yn symud ymlaen i'r cam cyflawni a fydd yn canolbwyntio ar wasanaethau eiddilwch a chymunedol, gwasanaethau gofal wedi'i gynllunio a gwasanaethau diagnostig, a thrawsnewid gwasanaethau iechyd meddwl.

83 Ar wahân i Gynllun Gwydnwch rhag Pwysau'r Gaeaf 2023-24, ni chymeradwywyd unrhyw strategaethau neu gynlluniau eraill yn ystod y flwyddyn.

## Dull corfforaethol o osod nodau llesiant

84 Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn o osod ei nodau llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy[8]. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r canlynol:

- bod trefniadau priodol ar waith ar gyfer gosod nodau llesiant sy'n cael eu tanategu gan yr egwyddor datblygu cynaliadwy;
- rhoddir ystyriaeth briodol i sut y bydd y sefydliad yn sicrhau y bydd yn cyflawni ei nodau llesiant;
- bod trefniadau priodol ar waith i fonitro cynnydd a gwella sut mae'r sefydliad yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

85 Canfuom mai **anodau strategol y Bwrdd Iechyd hefyd yw ei nodau llesiant, a gafodd eu llywio gan dystiolaeth ac ymgysylltiad priodol. Fodd bynnag, dylid adolygu nodau llesiant yn flynyddol i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn briodol, ac mae diffyg eglurder ynghylch sut mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu cyflawni ei nodau a dangos eu heffaith dros y tymor canolig i'r tymor hwy.**

86 Mae 'Powys Iach a Gofalgar' 2017-27 yn nodi nodau hirdymor y Bwrdd Iechyd sydd hefyd yn nodau llesiant. Cafodd y nodau strategol / llesiant eu llunio yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac wedi'u halinio'n glir â gweledigaeth a strategaeth y Bwrdd Iechyd (gweler **paragraff 79**). Ategwyd y nodau hefyd drwy ymgysylltu â thrigolion Powys, yr awdurdod lleol a'r trydydd sector, ac fe'u llywiwyd gan y dystiolaeth sy'n sail i'r strategaeth hirdymor. Fodd bynnag, mae gofyniad statudol i adolygu nodau llesiant yn flynyddol i sicrhau eu bod yn barhaus yn briodol a dylid cyfleu'r adolygiad hwn yn glir (**Argymhelliad 4.1**).

87 Mae diffyg eglurder hefyd ynghylch sut mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu cyflawni ei nodau llesiant dros oes ei strategaeth, ac i fesur eu heffaith arfaethedig. Mae'r Cynllun Integredig 2024-29 yn nodi'n glir flaenoriaethau, amserlenni ar gyfer cyflawni, a'r canlyniadau a'r effaith a fwriadwyd, ond dim ond yn y tymor byr y mae'r rhain **(Argymhellion 5.1** a **5.2).**

Gallai hyn fod trwy, ond heb fod yn gyfyngedig i ddileu niwed, lleihau gor-driniaeth a gweithdrefnau gydag effeithiolrwydd clinigol cyfyngedig, neu fabwysiadu dulliau amgen neu ataliol.

[8] O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd osod a chyhoeddi nodau llesiant sydd wedi'u cynllunio i sicrhau'r cyfraniad mwyaf at gyflawni pob un o'r nodau llesiant. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma.

## Dull corfforaethol o oruchwylio’r gwaith o gyflawni strategaethau a chynlluniau

88 Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn o oruchwylio a chraffu ar weithredu a chyflawni cynlluniau corfforaethol. Roeddem yn chwilio’n benodol am dystiolaeth o’r canlynol:

- cynlluniau corfforaethol, gan gynnwys y CTCI, sy'n cynnwys blaenoriaethau/amcanion strategol clir a cherrig milltir, targedau a chanlyniadau CAMPUS sy'n cynorthwyo monitro ac adrodd;
- y Bwrdd yn monitro gweithredu a chyflawni cynlluniau corfforaethol yn briodol, gan gynnwys y CTCI.

89 Yn gyffredinol canfuom fod **gan y Bwrdd Iechyd drefniadau effeithiol ar gyfer goruchwylio’r gwaith o gyflawni blwyddyn un ei Gynllun Integredig 2024-29. Mae angen sicrhau bod y strategaeth hirdymor yn parhau i fod yn berthnasol ac yn briodol, a bod cynnydd yn cael ei wneud ar gyflymder digonol i gyflawni'r effeithiau bwriadedig. Dylid gwella adrodd ar gynnydd i gyflawni cynlluniau eraill gyda gwybodaeth i ddangos lle nad yw cyflawni ar y trywydd iawn, camau lliniaru cysylltiedig, ac amserlenni cyflawni diwygiedig.**

90 Mae strategaeth hirdymor y Bwrdd Iechyd bellach ar gam pwysig, ac o ystyried bod y strategaeth wedi'i gosod cyn y pandemig, mae angen i'r Bwrdd Iechyd asesu a myfyrio ynghylch a yw'r strategaeth hirdymor yn parhau i fod yn briodol ar ôl y pandemig ac yng nghyd-destun yr argyfwng costau byw **(Argymhelliad 4.2).** Rydym yn deall bod adolygiad o'r strategaeth wedi digwydd o fewn y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, ac mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod hyn yn cael ei ystyried yn y dyfodol a'i gyfleu.

91 Mae cynnydd o’i gymharu â’r Cynllun Integredig 2024-29 yn cael ei adrodd yn rheolaidd i'r Bwrdd trwy Ddiweddariadau Cynllun Cyflawni chwarterol. Yn gyffredinol, mae'r adroddiad yn darparu trosolwg da o'r cynnydd o’i gymharu â’r amcanion strategol ac yn nodi cyflawniadau, camau gweithredu a cherrig milltir allweddol (gweler **Atodiad 2 A2 2022**). Mae hefyd yn nodi cyfrifoldebau Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer cyflawniadau sy'n gwella atebolrwydd.

92 Yn ystod y flwyddyn, derbyniodd y Bwrdd a phwyllgorau ddiweddariadau arferol ar gyflwyno strategaethau a chynlluniau corfforaethol ehangach fel y Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio, y Fframwaith Strategol Digidol, a'r Adroddiad Blynyddol ar Iechyd a Diogelwch. Er bod y rhain yn darparu gwybodaeth i ddangos cynnydd, maent yn y prif naratif ac nid ydynt yn mynegi'n glir lle nad yw cyflawni ar y trywydd iawn, camau lliniaru cysylltiedig, ac amserlenni cyflawni diwygiedig **(Argymhelliad 6).**

# Dull corfforaethol o reoli adnoddau ariannol

93 Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn o reoli ei adnoddau ariannol.

94 Canfuom, **er bod trefniadau cynllunio a rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd yn effeithiol yn gyffredinol, bod angen cryfhau trefniadau monitro ac adrodd er mwyn sefydlu rheolaeth ar frys dros y risgiau i'w sefyllfa ariannol. Mae heriau ariannol parhaus hefyd yn golygu bod angen monitro unrhyw risgiau perfformiad ac ansawdd cysylltiedig i gyflawniad gwasanaethau**.

## Amcanion ariannol

95 Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn o gyflawni ei amcanion ariannol allweddol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r canlynol:

- Bod y sefydliad yn cyflawni ei amcanion a'i ddyletswyddau ariannol ar gyfer 2023-24, a'r cyfnod treigl o dair blynedd o 2021-22 i 2023-24;
- Bod y sefydliad ar y trywydd iawn i gyflawni ei amcanion a'i ddyletswyddau yn 2024-25.

96 Canfuom nad oedd **y Bwrdd Iechyd wedi cyflawni ei amcan ariannol i fantoli'r cyfrifon 2023-24, ac mae'n wynebu heriau sylweddol wrth gyflawni ei sefyllfa o ddiffyg diwedd blwyddyn a ragwelir yn 2024-25 a'r cyfanswm diffyg rheoli a ddisgwylir gan Lywodraeth Cymru**

97 Ni chyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei amcan ariannol i fantoli'r cyfrifon ar gyfer refeniw ar gyfer 2023-24. Yn hytrach, adroddodd am gyflawni cyfanswm rheoli diffyg y cytunwyd arno o £12 miliwn, a gyflawnwyd gyda chymorth ariannol ychwanegol yn ystod y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, dirywiodd ei ddiffyg sylfaenol i £26.3 miliwn sy'n golygu bod y Bwrdd Iechyd yn parhau i fethu â bodloni ei ddyletswydd ariannol statudol i fantoli'r cyfrifon yn erbyn ei derfyn adnoddau refeniw dros gyfnod treigl o dair blynedd. Adroddodd y Bwrdd Iechyd am warged bach o £25,000 yn erbyn terfyn adnoddau cyfalaf.

98 Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fethu â chyflwyno cynllun ariannol cytbwys ar gyfer y cyfnod o dair blynedd 2024-27 ac mae'n gweithio ar gynllun blynyddol ar gyfer 2024-25 sy'n nodi diffyg a ragwelir o £24.9 miliwn. Ym mis Mai 2024, cytunodd y Bwrdd i adolygu ei gynllun ariannol 2024-25 i gyflawni diffyg o £22.9 miliwn. Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod cyfanswm rheoli diffyg o £12 miliwn ar gyfer 2024-25.

99 Hyd at fis Tachwedd 2024, roedd y Bwrdd Iechyd yn rhagweld y byddai'n cyflawni'r diffyg arfaethedig diwedd blwyddyn o £22.9 miliwn. Fodd bynnag, tynnodd diweddariad Mis 7 i'r Bwrdd sylw at orwariant gweithredol o £3.7 miliwn hyd yma gyda risg sylweddol y gallai'r sefyllfa waethygu ymhellach erbyn diwedd y flwyddyn, gan achosi i'r Bwrdd Iechyd ystyried a oedd angen addasu ei ragolwg ariannol.

100 Ym mis Rhagfyr 2024, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddyraniad cyllid arall o £7.1 miliwn i'r Bwrdd Iechyd i gefnogi'r galw cynyddol, pwysau chwyddiant, a chostau comisiynu. Dylai hyn leihau diffyg arfaethedig y Bwrdd Iechyd o £22.9 miliwn i £15.8 miliwn. Fel rhan o amodau'r dyraniad ychwanegol, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r Bwrdd Iechyd gyflawni'r cyfanswm rheoli diffyg a osododd i'r Bwrdd Iechyd (£12 miliwn). Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi y byddai unrhyw ddirywiad pellach yn y sefyllfaoedd ariannol yn annerbyniol ac na ellid ei gynnal. Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i ragweld y bydd yn parhau i fod o fewn ei derfyn adnoddau cyfalaf o £12.6 miliwn.

## Dull corfforaethol o gynllunio ariannol

101 Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn o oruchwylio a chraffu ar gynllunio ariannol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r canlynol:

- bod trefniadau cynllunio ariannol corfforaethol clir a chadarn ar waith;
- bod y Bwrdd yn craffu ar gynlluniau ariannol yn briodol cyn eu cymeradwyo;
- arbedion cynaliadwy, realistig ac wedi'u costio'n gywir a chynlluniau gwella costau ar waith sydd wedi'u cynllunio i gefnogi cynaliadwyedd ariannol a thrawsnewid gwasanaethau;
- y Bwrdd yn craffu ar arbedion a chynlluniau gwella costau yn briodol cyn eu cymeradwyo.

102 Canfuom fod **gan y Bwrdd Iechyd ddull effeithiol o gynllunio ariannol yn y tymor byr i ganolig. Fodd bynnag, mae heriau ariannol parhaus yn golygu bod angen monitro effaith heriau ariannol ar berfformiad ac ansawdd y gwasanaethau a ddarperir**.

103 Yn 2023-24, cyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei darged o arbedion o £12.1 miliwn oherwydd ei fod yn cydnabod enillion cyfrifyddu, nad ydynt yn ailadroddus eu natur. Canfu ein Hadolygiad 2024 o Drefniadau Arbed Costau, er bod y Bwrdd Iechyd wedi cyrraedd ei darged diffyg y cytunwyd arno ar gyfer 2023-24, mae ei hanes o gyflawni yn erbyn ei dargedau arbedion cyffredinol yn amrywiol. O ystyried sefyllfa ariannol heriol bresennol y Bwrdd Iechyd, mae angen iddo gyflymu'r gwaith ar frys ar gyflwyno model gwasanaeth newydd, mwy cynaliadwy yn ariannol a sicrhau bod ganddo'r sgiliau a'r gallu angenrheidiol i gefnogi'r trawsnewidiad y mae ei angen. Rydym wedi gwneud sawl argymhelliad yn yr adroddiad.

104 Mae gan y Bwrdd Iechyd broses glir ar gyfer datblygu ei gynllun ariannol. Mae aelodau'r bwrdd wedi craffu ar ddatblygiad y cynllun a'r cynllun ei hun cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

105 Mae cynllun ariannol 2024-25 yn nodi sawl risg y mae angen i'r Bwrdd Iechyd eu rheoli. Mae'r rhain yn cynnwys lefelau uchel o heriau galw a chapasiti ar draws iechyd a gofal cymdeithasol sy'n effeithio ar ymrwymiadau cynllunio, cyflawni'r targed arbedion, effaith dyfarniad cyflog 2024-25 ar gostau staffio a phwysau costau parhaus. Bydd angen i'r Bwrdd Iechyd fonitro risgiau ariannol ac effaith heriau ariannol ar gyflawni, perfformiad ac ansawdd gwasanaethau yn fanwl **(Argymhelliad 7).**

106 Ym mis 7 2024-25, roedd y Bwrdd Iechyd yn rhagweld cyflawni ei darged arbedion o £9.9 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn. Fodd bynnag, mae risgiau yn gysylltiedig â gallu timau i gyflawni'r arbedion angenrheidiol. Mae perfformiad yn erbyn targedau arbedion yn parhau i fod yn destun craffu gan y Pwyllgor a'r Bwrdd Cyflawni a Pherfformiad.

## Dull corfforaethol o reoli ariannol

107 Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn o oruchwylio a chraffu ar reolaeth ariannol. Roeddem yn chwilio’n benodol am dystiolaeth o’r canlynol:

- bod rheolaethau effeithiol ar waith sy'n sicrhau cydymffurfiaeth â Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a Chynlluniau Cadw a Dirprwyo;
- bod y Bwrdd yn goruchwylio’n briodol y trefniadau a’r perfformiad sy'n ymwneud â gweithredoedd tendr sengl, taliadau arbennig, colledion, a gwrth-dwyll;
- bod trefniadau rheoli ariannol effeithiol ar waith sy'n galluogi'r Bwrdd i ddeall y ffactorau sy’n dylanwadu ar gostau a sut maent yn effeithio ar gyflawni amcanion strategol;
- cyflwynwyd datganiadau ariannol y sefydliad ar gyfer 2023-24 ar amser, nid oeddent yn cynnwys unrhyw gamddatganiadau perthnasol, a chawsant farn archwilio ddiamod.

108 Gwelsom, **er bod y Bwrdd Iechyd yn parhau i fod â threfniadau effeithiol ar gyfer goruchwylio a chraffu ar reolaeth ariannol, mae angen iddo reoli ei gostau ar frys**.

109 Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fod â threfniadau cadarn i sicrhau cydymffurfiaeth ag offerynnau statudol ac i roi gwybod am doriadau. Fel y nodir ym **mharagraff 20**, mae'r Cynllun Dirprwyo wedi'i adolygu a'i gymeradwyo gan ARAC a'r Bwrdd, ac mae adolygiad o'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog wedi'i drefnu ar gyfer dechrau 2025. Mae ARAC yn adolygu colledion, taliadau arbennig, camau tendr sengl, ac adroddiadau gwirio ôl-daliad yn rheolaidd.

110 Roedd diweddariad Archwilio Mewnol ym mis Ionawr 2024 yn nodi themâu a myfyrdodau o'i waith i'r ARAC. Tynnodd y diweddariad sylw at y ffaith bod Archwilio Mewnol wedi cwblhau 49 o adolygiadau llywodraethu a rheoli ariannol yn y Bwrdd Iechyd rhwng 2021-24, gan arwain at 67% a 33% yn cael sgôr sicrwydd rhesymol a sylweddol, yn y drefn honno. Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fod â threfniadau gwrth-dwyll da. Mae cynllun gwaith blynyddol y cytunwyd arno ac adroddiadau arferol i ARAC yn dangos cyflawniad yn erbyn y cynllun.

111 Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fod â dealltwriaeth dda o'i bwysau costau sy'n cynnwys gofal iechyd parhaus, gweithgarwch a gomisiynwyd, cyflog amrywiol, pwysau costau chwyddiant (gan gynnwys costau ynni a rhagnodi), a'r costau parhaus sy'n gysylltiedig ag ymateb i waddol pandemig COVID-19.

112 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal adroddiadau estynedig ar wariant ar lefel y Bwrdd a'r pwyllgor ac wedi sefydlu gweithgorau, fel ei Grŵp Lleihau Gwariant ar Staff Asiantaeth, i gynnwys gwariant. Rhoddodd adolygiad Archwilio Mewnol o'r Grŵp Lleihau Gwariant ar Staff Asiantaeth a adroddwyd ym mis Ebrill 2024 sgôr sicrwydd rhesymol, Mae'r adroddiad Cyllid diweddaraf i'r Bwrdd (Tachwedd 2024) yn parhau i dynnu sylw at amrywiadau andwyol sylweddol ar draws cyllidebau cyflog, yn ogystal â chomisiynu gwasanaethau gofal iechyd, gofal iechyd parhaus a

gofal nyrsio a ariennir gan y GIG, gan nodi nad yw gweithredoedd y Bwrdd Iechyd yn cyflawni'r effaith a ddymunir. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cyhoeddi llythyrau atebolrwydd i Gyfarwyddwyr Gweithredol sy'n nodi'r gofynion i reoli sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd.

113 Cyflwynodd y Bwrdd Iechyd ddatganiadau ariannol drafft o ansawdd da ar gyfer archwilio allanol o fewn yr amserlenni gofynnol. Nid oedd ein harchwiliad yn nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol ond nododd rai meysydd lle dylid gwneud cywiriadau. Fe wnaethom gyhoeddi barn ddiamod mewn perthynas â chywirdeb a thegwch y cyfrifon, ond barn amodol ar reoleidd-dra oherwydd bod y Bwrdd Iechyd yn torri ei ddyletswydd i gyflwyno sefyllfa o fantoli'r cyfrifon dros y cyfnod treigl tair blynedd 2021-24.

## Trosolwg y Bwrdd o berfformiad ariannol

114 Gwnaethom ystyried a yw'r Bwrdd yn goruchwylio ac yn craffu ar berfformiad ariannol yn briodol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r canlynol:

- bod y Bwrdd yn derbyn adroddiadau cywir, tryloyw ac amserol ar berfformiad ariannol, yn ogystal â'r heriau ariannol, risgiau a chamau lliniaru allweddol;
- bod y Bwrdd yn craffu ar yr asesiadau parhaus o sefyllfa ariannol y sefydliad yn briodol.

115 Canfuom, **er bod adroddiadau ariannol yn darparu digon o wybodaeth i alluogi craffu a herio effeithiol, mae angen iddynt fod yn gliriach ynghylch effaith y camau a gymerwyd i wella'r sefyllfa ariannol.**

116 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau rhesymol effeithiol ar gyfer adrodd ar berfformiad ariannol i'r Bwrdd a'r Pwyllgor Cyflawni a Pherfformiad. Mae adroddiadau cyllid yn glir ac yn darparu digon o wybodaeth i alluogi craffu a herio. Yn fras, cyflwynir adroddiadau tebyg i'r ddau fforwm ac mae cyfleoedd, yn enwedig ar lefel pwyllgorau, i gynnal craffu mwy manwl yn unol â'u swyddogaeth a darparu her mewn meysydd penodol lle nad yw perfformiad ar y trywydd iawn. Ar ben hynny, er bod adroddiadau'n parhau i dynnu sylw at risgiau ariannol allweddol i'r sefyllfa ariannol, mae cyfleoedd i fod yn gliriach ynghylch effaith camau lliniaru **(Argymhelliad 8).**

117 Canfu ein harsylwadau fod aelodau annibynnol yn cynyddu eu gwaith craffu a herio ynghylch perfformiad ariannol y Bwrdd Iechyd yng nghyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgor Cyflawni a Pherfformiad. Fodd bynnag, bydd yr heriau ariannol presennol yn y Bwrdd Iechyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd a'r Pwyllgor Cyflawni a Pherfformiad ddarparu lefel briodol o graffu, a her barhaus ar berfformiad ariannol, cyflawni arbedion, a rheoli risgiau.

# Atodiad 1

## Dulliau archwilio

Mae **Arddangosyn 2** isod yn nodi'r dulliau a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni'r gwaith hwn. Mae ein tystiolaeth wedi'i chyfyngu i'r wybodaeth a dynnwyd o'r dulliau isod.

**Arddangosyn 2: dulliau archwilio**

| Elfen o ddull archwilio | Disgrifiad |
|---|---|
| Arsylwadau | Gwnaethom arsylwi cyfarfodydd y Bwrdd yn ogystal â chyfarfodydd y pwyllgorau canlynol:<br>• Y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd;<br>• Y Pwyllgor Cyflawni a Pherfformiad;<br>• Y Pwyllgor Profiad Cleifion, Ansawdd a Diogelwch;<br>• Y Pwyllgor Cynllunio, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth;<br>• Pwyllgor y Gweithlu a Diwylliant. |
| Dogfennau | Fe wnaethom adolygu ystod o ddogfennau, gan gynnwys:<br>• Cylch Gorchwyl, rhaglenni gwaith, agendâu, papurau a chofnodion y Bwrdd a Phwyllgorau;<br>• dogfennau llywodraethu allweddol, gan gynnwys Cynlluniau Dirprwyo, Rheolau Sefydlog, Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, Cofrestrau o Fuddiannau, a Chofrestrau Rhoddion a Lletygarwch;<br>• strategaethau a chynlluniau sefydliadol allweddol, gan gynnwys y CTCI;<br>• dogfennau rheoli risg allweddol, gan gynnwys Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol;<br>• adroddiadau allweddol sy'n ymwneud â pherfformiad a chyllid sefydliadol; |

| Elfen o ddull archwilio | Disgrifiad |
|---|---|
| | • Adroddiad Blynyddol, gan gynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol;<br>• polisïau a gweithdrefnau perthnasol;<br>• adroddiadau a baratowyd gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, y Gwasanaeth Gwrth-dwyll Lleol, a chyrff allanol perthnasol eraill. |
| Cyfweliadau | Fe wnaethom gyfweld â'r Uwch Swyddogion a'r Aelodau Annibynnol canlynol:<br>• Y Prif Weithredwr<br>• Y Cadeirydd<br>• Yr Is-gadeirydd<br>• Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol/Ysgrifennydd y Bwrdd;<br>• Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid, Cyfalaf a Gwasanaethau Cymorth a’r Dirprwy Brif Weithredwr<br>• Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio, Perfformiad a Chomisiynu<br>• Aelod Annibynnol (Cyllid)<br>• Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd<br>• Cadeirydd y Pwyllgor Cyflawni a Pherfformiad |

# Atodiad 2

## Cynnydd a wnaed ar argymhellion y flwyddyn flaenorol

Mae **Arddangosyn 3** isod yn nodi'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd wrth weithredu argymhellion o adroddiadau asesu strwythuredig blaenorol

**Arddangosyn 3: cynnydd a wnaed ar argymhellion y flwyddyn flaenorol**

| Argymhelliad | Disgrifiad o'r cynnydd |
| --- | --- |
| **Tryloywder busnes y Bwrdd**<br>A1 Dylai'r Bwrdd Iechyd:<br>1.1. hyrwyddo holl gyfarfodydd y Bwrdd a digwyddiadau eraill, megis y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, trwy sianeli cyfryngau cymdeithasol y Bwrdd Iechyd a dulliau cyfathrebu eraill;<br>1.2. sicrhau bod cofnodion heb eu cadarnhau ar gael ar wefan y Bwrdd Iechyd yn fuan ar ôl cyfarfodydd i hyrwyddo tryloywder mwy amserol o fusnes y Bwrdd Iechyd. (2023) | **Wedi'i gwblhau** – gweler paragraff 14<br><br>**Wedi'i gwblhau** – gweler paragraff 15 |
| **Ymrwymiad y Bwrdd i glywed oddi wrth gleifion, defnyddwyr gwasanaethau a staff**<br>A2 Dylai'r Bwrdd Iechyd gyflwyno straeon cleifion i'r Pwyllgor Profiad, Ansawdd a Diogelwch Cleifion er mwyn i sbectrwm ehangach o brofiadau cadarnhaol a negyddol gael eu clywed. (2023) | **Wedi'i gwblhau** – gweler paragraff 39 |

| Argymhelliad | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| **Troeon y Bwrdd**<br>A3 Dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau ei drefniadau ar gyfer troeon y bwrdd trwy wneud y canlynol:<br>3.1. datblygu blaenraglen sy'n cynnwys Aelodau Annibynnol a Chyfarwyddwyr Gweithredol ac sy'n cwmpasu ystod eang o wasanaethau'r Bwrdd Iechyd;<br>3.2. datblygu fframwaith sy'n nodi sut y dylai'r troeon weithredu, a'r mecanweithiau ar gyfer adrodd themâu allweddol. (2023) | **Ar y gweill** – gweler paragraff 41<br>**Dim camau gweithredu –** gweler paragraff 41 |
| **Effeithiolrwydd pwyllgor**<br>A4 Dylai'r Bwrdd Iechyd gynnal ei adolygiadau o effeithiolrwydd pwyllgorau cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl, er mwyn sicrhau datblygiad parhaus yn y ffordd y mae'r pwyllgorau'n gweithredu. (2023) | **Wedi'i gwblhau** – gweler paragraff 46 |
| **Dull corfforaethol o oruchwylio risgiau corfforaethol.**<br>A5 Dylai'r Bwrdd Iechyd gyflymu'r broses o symud risgiau a gofnodwyd ar daenlenni ar hyn o bryd i'r modiwl risg Datix. (2023) | **Ar y gweill** – gweler paragraff 57 |
| **Dull corfforaethol o oruchwylio ansawdd a diogelwch gwasanaethau.**<br>A6 Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod y Pwyllgor Profiad, Ansawdd a Diogelwch Cleifion yn cael diweddariadau amserol drwy gydol y flwyddyn ar gynnydd yn erbyn Cynllun Gweithredu Fframwaith Ansawdd Clinigol 2020-23. (2023) | **Disodlwyd** – gweler paragraff 66 |
| **Dull corfforaethol o olrhain argymhellion**<br>A7 Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd yn derbyn y traciwr argymhellion yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn. (2023) | **Wedi'i gwblhau** – gweler paragraff 72 |

| Argymhelliad | | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|---|
| A2 | Mae adroddiadau cyflawni ar gyfer monitro cynnydd o'i gymharu â blaenoriaethau a'r camau gweithredu a nodir yn y CTCI yn naratif i raddau helaeth ac nid ydynt yn canolbwyntio ar fesurau ac effaith. Dylai'r Bwrdd Iechyd ailedrych ar ei adroddiadau cyflawni i sicrhau eu bod yn gryno, gyda'r elfen o naratif yn llai, ac yn canolbwyntio mwy ar fesurau ac effaith. (2022) | **Wedi'i gwblhau** – gweler paragraff 91 |
| A3 | Nid oes gan y Bwrdd Iechyd Fframwaith Sicrwydd Bwrdd wedi'i ddiweddaru sy'n mapio'r holl gyfleoedd a risgiau i gyflawni amcanion strategol, yn nodi bylchau mewn sicrwydd, ac yn llywio cynlluniau gwaith y Bwrdd a phwyllgorau. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd ddiweddaru ei Fframwaith Sicrwydd Bwrdd. (2022) | **Ar y gweill** – gweler paragraffau 25 a 53 |
| A4 | Ar hyn o bryd mae datgysylltiad rhwng cofrestrau risg y gyfarwyddiaeth a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol (CRC). Mae angen i'r Bwrdd Iechyd adolygu'r holl risgiau uchel ar gofrestrau risgiau'r gyfarwyddiaeth i sicrhau bod y rhai perthnasol yn cael eu huwchgyfeirio i'r CRC, a bod y Bwrdd yn ymwybodol o risgiau ehangach a allai ddigwydd. (2022) | **Ar y gweill** – gweler paragraff 56 |
| A5 | Mae cyfleoedd yn bodoli i wella mynediad y cyhoedd at ddogfennau allweddol y Bwrdd Iechyd. Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau'r canlynol:<br>a) Bod polisïau a gweithdrefnau, a'r gofrestr o fuddiant ar y wefan gyhoeddus yn hygyrch. (2022) | **Dim camau gweithredu**– gweler paragraffau 21 a 22<br><br>(Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cydnabod na fyddant yn ceisio mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn.) |

| Argymhelliad | | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|---|
| A6 | Nid oes unrhyw ddulliau ar gael i Gadeiryddion pwyllgorau gyfarfod yn ffurfiol y tu allan i gyfarfodydd pwyllgorau i rannu pryderon ac arfer da, ac nid oes dulliau ar waith i dracio materion a gweithredoedd a gyfeiriwyd rhwng pwyllgorau. Dylai'r Bwrdd Iechyd roi dull ar waith i sicrhau:<br>b) bod materion a chamau gweithredu a gyfeiriwyd rhwng pwyllgorau yn cael eu tracio a bod adborth yn cael ei ddarparu pan fyddant wedi'u cwblhau. (2022) | **Wedi'i gwblhau** – gweler paragraff 31 |
| A9 | Mae cyfleoedd yn bodoli i wella hunan-adolygiadau o effeithiolrwydd y Bwrdd a phwyllgorau. Dylai'r Bwrdd Iechyd:<br>a) sicrhau bod meysydd i'w gwella yn cael eu nodi a'u monitro trwy gynllun gweithredu;<br>b) cynnwys eitem agenda sefydlog ym mhob cyfarfod Bwrdd a phwyllgorau er mwyn caniatáu adolygiad o'r cyfarfod. (2022) | **Wedi'i gwblhau** – gweler paragraff 46<br>**Wedi'i gwblhau** – gweler paragraff 46 |
| A10 | Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnal sawl swydd dros dro ar lefel uwch a all achosi ansefydlogrwydd i wasanaethau a staff. Dylai'r Bwrdd Iechyd geisio penodi yn barhaol i'r swyddi dros dro o fewn y tîm Gweithredol cyn gynted ag y bo'n ymarferol i wneud hynny. (2022) | **Wedi'i gwblhau** – gweler paragraff 45 |

# Atodiad 3

## Ymateb y rheolwyr i argymhellion archwilio

**Arddangosyn 4: Ymateb Bwrdd Iechyd Addysgu Powys i'n hargymhellion archwilio**

| Cyf | Argymhelliad | **Ymateb y rheolwyr** Nodwch yma sylwadau perthnasol ar y camau gweithredu arfaethedig mewn ymateb i'r argymhellion | **Dyddiad cwblhau** Nodwch erbyn pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig wedi'u cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| A1 | Dylai'r Bwrdd Iechyd ei gwneud yn ofynnol i staff sydd â throsolwg sylweddol o gyllideb a/neu ddylanwad sylweddol ar drefniadau comisiynu ddarparu | **Derbyniwyd yr argymhelliad.**<br><br>Diweddarwyd y Polisi Safonau Ymddygiad i gynnwys staff perthnasol ac fe'i | Wedi'i gwblhau | Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol |

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr<br>Nodwch yma sylwadau perthnasol ar y camau gweithredu arfaethedig mewn ymateb i'r argymhellion | Dyddiad cwblhau<br>Nodwch erbyn pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig wedi'u cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| | gwybodaeth am unrhyw fuddiannau perthnasol a chynnwys yr wybodaeth hon ar y Gofrestr Buddiannau (**paragraff 21**). | cymeradwywyd gan y Bwrdd ar 26 Mawrth 2025. | | |
| A2 | Dylai'r Bwrdd Iechyd nodi ei uchelgeisiau ar gyfer ansawdd a diogelwch ei wasanaethau a sut y bydd yn mynd i'w cyflawni (paragraff 66) | **Derbyniwyd yr argymhelliad.**<br><br>Adolygwyd a chymeradwywyd y Fframwaith Ansawdd a Pherfformiad Integredig gan y Bwrdd ar 21 Mai 2025. Bydd adroddiadau bob dau fis yn parhau i gael eu cyflwyno i Bwyllgor Cyllid a Pherfformiad y Bwrdd a'r Bwrdd ochr yn ochr â'r gofynion eraill a nodir yn y fframwaith diwygiedig. | Wedi'i gwblhau | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Ansawdd, Iechyd Menywod ac Iechyd Teulu |

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr<br>Nodwch yma sylwadau perthnasol ar y camau gweithredu arfaethedig mewn ymateb i'r argymhellion | Dyddiad cwblhau<br>Nodwch erbyn pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig wedi'u cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| A3 | Dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau'r broses o dracio argymhellion drwy sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei darparu i sicrhau'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd bod y camau a gymerwyd wedi mynd i'r afael â'r argymhellion yn effeithiol (paragraff 74). | **Derbyniwyd yr argymhelliad.**<br><br>Bydd yr offeryn a'r broses dracio archwilio yn cael eu diweddaru i adlewyrchu'r camau gweithredu. | 1 Tachwedd 2025 | Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol |
| A4 | Dylai'r Bwrdd Iechyd:<br>4.1. Sicrhau bod adolygiadau blynyddol o'i nodau llesiant yn cael eu cyfleu'n glir (paragraff 86);<br><br>4.2. Sicrhau adolygiad o'i strategaeth hirdymor i gadarnhau ei phriodoldeb parhaus ar ôl y pandemig, ac, yng ngoleuni'r heriau ariannol, ei bod yn cael | **Derbyniwyd yr argymhelliad.**<br><br>4.1 – Nodir bod Nodau Llesiant yn rhan o'r Strategaeth Iechyd a Gofal ar y Cyd (y cytunwyd arni gyda Chyngor Sir Powys). Adolygiad cyffredinol a gynhaliwyd drwy gynllun gwaith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. | 4.1 – blynyddol – Mawrth 2026 | Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio, Perfformiad a Chomisiynu |

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr<br>Nodwch yma sylwadau perthnasol ar y camau gweithredu arfaethedig mewn ymateb i'r argymhellion | Dyddiad cwblhau<br>Nodwch erbyn pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig wedi'u cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| | ei chyfleu a'i bod yn cyfrannu at gynlluniau adolygu strategaeth yn y dyfodol (paragraff 90). | Bydd y Bwrdd Iechyd yn eu hadolygu bob blwyddyn fel rhan o'r cylch cynllunio blynyddol a thymor canolig ac yn cyfleu i'r Pwyllgor Cynllunio, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth a'r Bwrdd fel rhan o'r broses CTCI.<br><br>4.2 – Cytunwyd ar y Strategaeth Iechyd a Gofal ar y Cyd bresennol hyd at 2027. Mae'r Bwrdd Iechyd yn adolygu'r blaenoriaethau strategol i gyflawni'r Strategaeth bob blwyddyn fel rhan o'r cylch cynllunio blynyddol a bydd yn parhau i wneud hynny.<br><br>Bydd adolygiad a datblygiad y Strategaeth wedi'i hadnewyddu yn cael ei gynllunio gan sicrhau ei bod wedi'i chwblhau erbyn 2027 a bydd yn cael ei hadrodd i'r Pwyllgor Cynllunio, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth a'r | 4.2 – bydd wedi'i gwblhau erbyn Ebrill 2027 | |

| Cyf | Argymhelliad | **Ymateb y rheolwyr**<br>Nodwch yma sylwadau perthnasol ar y camau gweithredu arfaethedig mewn ymateb i'r argymhellion | **Dyddiad cwblhau**<br>Nodwch erbyn pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig wedi'u cwblhau | **Swyddog cyfrifol (teitl)** |
|---|---|---|---|---|
| | | Bwrdd. Noder, oherwydd natur gydweithredol y Strategaeth, mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cydlynu'r gwaith hwn. | | |
| A5 | Fel rhan o'i drefniadau cynllunio craidd, dylai'r Bwrdd Iechyd nodi a monitro'n glir:<br>5.1. y camau y mae'n bwriadu eu cymryd i gyflawni ei nodau llesiant dros oes ei strategaeth hirdymor (paragraff 87);<br>5.2. mesurau perfformiad strategol i gyd-fynd â'i nodau llesiant sy'n cofnodi'r effaith hirdymor y mae'n ceisio ei chyflawni (paragraff 87). | **Derbyniwyd yr argymhelliad.**<br>5.1 - Oherwydd natur gydweithredol y Strategaeth, caiff hyn ei fonitro gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ac ar gyfer y Bwrdd Iechyd hefyd bydd yn rhan o'r cylch cynllunio blynyddol a thymor canolig.<br>5.2 - Oherwydd natur gydweithredol y Strategaeth, bydd hyn yn cael ei gydlynu gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol fel rhan o | 5.1 – Mawrth 2026<br>5.2 – Mawrth 2027 | Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio, Perfformiad a Chomisiynu |

| Cyf | Argymhelliad | **Ymateb y rheolwyr**<br>Nodwch yma sylwadau perthnasol ar y camau gweithredu arfaethedig mewn ymateb i'r argymhellion | **Dyddiad cwblhau**<br>Nodwch erbyn pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig wedi'u cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| | | adolygiad a datblygiad y Strategaeth wedi'i hadnewyddu. | | |
| A6 | Dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau adroddiadau sy'n nodi cynnydd o’i gymharu â strategaethau a chynlluniau corfforaethol ehangach trwy nodi'n glir lle nad yw cyflawni ar y trywydd iawn, camau lliniaru, ac amserlenni cyflawni diwygiedig (paragraff 92). | **Derbyniwyd yr argymhelliad.**<br><br>Bydd adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth gryfach sy'n mynegi lle nad yw cyflenwi ar y trywydd iawn. | 31 Mawrth 2026 | Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol gyda chefnogaeth yr holl Gyfarwyddwyr Gweithredol perthnasol |
| A7 | Dylai'r Bwrdd Iechyd nodi, monitro a rheoli unrhyw risgiau ansawdd a pherfformiad | **Derbyniwyd yr argymhelliad.** | Wedi'i gwblhau – fel rhan o'r Fframwaith Ansawdd a Pherfformiad Integredig | Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio, |

| Cyf | Argymhelliad | **Ymateb y rheolwyr**<br>Nodwch yma sylwadau perthnasol ar y camau gweithredu arfaethedig mewn ymateb i'r argymhellion | **Dyddiad cwblhau**<br>Nodwch erbyn pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig wedi'u cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| | uniongyrchol a allai godi oherwydd yr heriau ariannol parhaus (paragraff 105). | Mae hyn yn rhan o'r asesiad o opsiynau gwella ariannol fel rhan o'r broses gynllunio. Cynhelir y monitro drwy'r Fframwaith Ansawdd a Pherfformiad Integredig. Bydd Adroddiadau Ansawdd a Pherfformiad Integredig bob deufis yn parhau i gael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad a'r Bwrdd ochr yn ochr â'r gofynion eraill a nodir yn y fframwaith diwygiedig. | diwygiedig a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Mai 2025. | Perfformiad a Chomisiynu |
| A8 | Dylai'r Bwrdd Iechyd ddarparu mwy o sicrwydd o fewn adroddiadau cyllid ar effaith camau lliniaru i fynd i'r afael â risgiau ariannol allweddol (paragraff 116). | **Derbyniwyd yr argymhelliad.**<br><br>Bydd sicrwydd pellach yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad cyllid ar gyfer y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad y Bwrdd a'r Bwrdd yn ogystal â sicrwydd adroddiadau rheolaeth ariannol a wneir i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. | Medi 2025 | Cyfarwyddwr Cyllid, Cyfalaf a Gwasanaethau Cymorth |

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.